**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**Y Bil Data (Defnydd a Mynediad)**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (Rh.S.) 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru[1] os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Data (Defnydd a Mynediad) ("y Bil") yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 23 Hydref 2024. Mae'r Bil ar gael ichi ei weld yn: bills.parliament.uk/publications/56527/documents/5211

3. Ysgrifennais at y Llywydd ar 30 Hydref 2024 i roi gwybod iddi y byddai oedi cyn gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil. Y prif reswm am yr oedi hwnnw oedd cymhlethdod a hyd y Bil, ynghyd â'r angen i ystyried y materion y daethpwyd ar eu traws wrth lunio'r Bil blaenorol ar Ddiogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (DPDI), a oedd yn cynnwys darpariaethau tebyg.

## Amcan(ion) y Polisi

4. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw harneisio pŵer data er lles twf yr economi, i gefnogi llywodraeth ddigidol fodern, a gwella bywydau pobl. Mae'n nodi bod y Bil wedi'i gynllunio i gyflawni'r tri amcan hyn gyda mesurau wedi'u cynnwys i ddechrau cyflawni ei hymrwymiad i wasanaethu'r cyhoedd ym Mhrydain yn well trwy wyddoniaeth a thechnoleg.

## Crynodeb o'r Bil

5. Noddir y Bil gan yr Adran Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg (DSIT).

6. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer y canlynol:
   - caniatáu ar gyfer rhannu data cwsmeriaid yn ddiogel, e.e. data a ddelir gan ddarparwr cyfathrebu neu ddarparwr gwasanaethau ariannol, ar gais y cwsmer, gyda darparwyr trydydd parti awdurdodedig.
   - sefydlu strwythur deddfwriaethol ar gyfer darparu gwasanaethau dilysu digidol yn y DU.
   - darparu fframwaith deddfwriaethol i gefnogi gweithrediad y Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol.

[1] Nodwch, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, y byddwn yn cyfeirio at y ddeddfwrfa yng Nghymru fel "Senedd Cymru" y tro cyntaf, ac wedyn "y Senedd", oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall.

- newid y ffordd y cofrestrir genedigaethau a marwolaethau yng Nghymru a Lloegr, er mwyn gallu symud o system bapur i gofrestru electronig.
- newid rhannau o fframwaith diogelu data a phreifatrwydd y DU i gynnal safonau diogelwch uchel, gan ddelio â diffyg eglurder y ddeddfwriaeth bresennol sy'n faen tramgwydd rhag datblygu a defnyddio technolegau newydd yn ddiogel.
- hwyluso llif data personol a'r defnydd ohono at ddibenion gorfodi'r gyfraith a diogelwch y wlad.
- diwygio'r rheoleiddiwr, y Comisiynydd Gwybodaeth, gan gynnwys ei strwythur llywodraethu, ei ddyletswyddau, ei bwerau gorfodi, ei ofynion adrodd a'r prosesau cwyno am ddiogelu data a'i ddatblygiad o godau ymarfer statudol.
- rhoi hyblygrwydd i'r Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan allu penderfynu ar y broses orau i'w dilyn ar gyfer penodi'r trwyddedai fydd yn olynu i ddarparu gwasanaethau cyfathrebu mesuryddion clyfar.
- estyn y pwerau rhannu data o dan adran 35 o Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 i gynnwys busnesau.
- diwygio Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 i'w gwneud yn ofynnol i OFCOM, pan gaiff ei hysbysu o farwolaeth plentyn gan y Crwner (neu'r ‘Procurator Fiscal’ yn yr Alban), gyhoeddi hysbysiad gwybodaeth i ddarparwyr gwasanaethau ar-lein penodedig sy'n gofyn ofynnol iddynt gadw am gyfnod penodedig wybodaeth benodol ynghylch y gwasanaeth a ddefnyddiwyd gan y plentyn fu farw.
- creu fframwaith sy'n caniatáu i ymchwilwyr gael at ddata sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein a gedwir gan gwmnïau technoleg.
- cadw gwybodaeth fiometrig, gan gynnwys yr hyn a geir pan fydd partneriaid rhyngwladol yn rhannu.
- diweddaru rheoliadau i sicrhau bod fframwaith cyfreithiol gwasanaethau ymddiriedaeth y DU yn parhau i weithredu'n effeithiol.

*Ymgysylltu â Llywodraeth y DU*

7. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU y Bil newydd hwn yn Araith y Brenin ar 17 Gorffennaf 2024. Ar y pryd enw'r Bil oedd y 'Digital Information and Smart Data Bill’. Mae swyddogion Llywodraeth y DU wedi bod mewn cysylltiad cyson â swyddogion Llywodraeth Cymru ers y cyhoeddiad hwnnw.

8. Mae llawer o ddarpariaethau'r Bil yn cyd-fynd â darpariaethau yn y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (DPDI) blaenorol. Cyflwynwyd y Bil DPDI yn Nhŷ'r Cyffredin ar 8 Mawrth 2023, ond methodd â chwblhau ei daith drwy Senedd y DU cyn diddymu sesiwn 2023-24 Senedd y DU cyn yr Etholiad Cyffredinol.

9. Daeth y Bil DPDI o dan y broses cydsyniad deddfwriaethol a gosodwyd memoranda cydsyniad deddfwriaethol yn y Senedd ar 29 Mawrth 2023, 25 Mai 2023, 11 Rhagfyr 2023 a 25 Ebrill 2024. Trafodwyd hefyd gynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Bil DPDI ar 14 Mai 2024 lle cynghorodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, yr Economi a'r Gymraeg ar y pryd y

Senedd i wrthod rhoi ei chydsyniad oherwydd pryderon cyfansoddiadol ynghylch nifer o ddarpariaethau'r Bil. Cytunodd y Senedd i wrthod ei chydsyniad yn dilyn pleidlais.

10. Nodwyd sut yr ymgysylltwyd â Llywodraeth flaenorol y DU am y Bil DPDI trwy'r memoranda cydsyniad deddfwriaethol a osodwyd ar y Bil, a dogfennau ategol eraill, fel y'u cyhoeddwyd ar wefan y Senedd.

11. Mae'r Bil yn rhyngweithio ag ystod eang o ddeddfwriaeth allweddol arall:
    - Deddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953
    - Deddf Diogelu Data 2018
    - Rheoliadau Diogelu Data, Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (Diwygiadau etc) (Ymadael â'r UE) 2019
    - Deddf yr Economi Ddigidol 2017
    - Deddf Trydan 1989 a Deddf Nwy 1986
    - Rheoliadau Gwasanaethau Adnabod ac Ymddiriedaeth Electronig ar gyfer Trafodion Electronig 2016
    - Deddf Ynni 2008:
    - Deddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013
    - Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Gwasanaethau Adnabod ac Ymddiriedaeth Electronig ar gyfer Trafodion Electronig (Diwygiad etc.)
    - Rheoliadau Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd 2019
    - Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal 2022
    - Deddf Mewnfudo 2014
    - Deddf Mewnfudo 2016
    - Deddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006
    - Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991
    - Deddf Diogelwch Ar-lein 2023
    - Rheoliadau Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1987
    - Deddf Gwasanaethau Cofrestru 1953
    - Street Works (Northern Ireland) Order 1995
    - Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (Cyfarwyddeb yr CE) 2003
    - Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

12. Mae'r cymalau canlynol yn gofyn am gydsyniad y Senedd i'r graddau y maent yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n ystyried materion datganoledig.

Rhan 1 - Cael at Ddata am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau – cymalau 1-13 ac 18-26;

13. Mae cymalau 1-13 ac 18-26 yn gwneud darpariaeth ynghylch rhannu gwybodaeth am gwsmeriaid a busnesau i wneud data yn fwy cludadwy ac yn sefydlu fframwaith rheoleiddio ar gyfer sefydlu cynlluniau Data Clyfar.

14. Gyda'i gilydd, mae'r cymalau hyn yn rhoi nifer o bwerau gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Trysorlys. Byddai hyn yn ei gwneud yn bosib sefydlu cynlluniau Data Clyfar drwy reoliadau, gan ei gwneud yn ofyn i gyflenwyr a phobl berthnasol eraill rannu data yn y modd a ragnodir mewn rheoliadau. Byddai'r rheoliadau'n pennu cwmpas cynllun, y cwmnïau a ddiffinnir fel "deiliaid data", a'r data y bydd gofyn iddynt eu cyhoeddi/rhannu. Byddai'r rheoliadau hefyd yn sefydlu'r fframwaith ar gyfer sefydlu a rheoli'r cynllun, gan gynnwys achredu trydydd partïon, gorfodaeth gan gorff cyhoeddus penodedig, a thalu ffioedd ac ardollau. Mae'r darpariaethau hyn yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Trysorlys hefyd i roi cymorth ariannol i orfodwyr i dalu am eu costau.

15. Mae'r cymalau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch rhannu gwybodaeth am gwsmeriaid a busnesau i wneud y data yn fwy cludadwy er mwyn gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i gwsmeriaid ac i fusnesau. At hynny, bwriedir i'r cymalau hyn ei gwneud yn haws rhannu data personol ond nid ydynt yn gwneud newidiadau i fframwaith y ddeddfwriaeth diogelu data ei hun ac felly nid ydynt yn ymwneud â pharagraff 170 o Atodlen 7A i GOWA 2006, "*Diogelu data personol*".

16. Gan fod diben y darpariaethau hyn yn ymwneud â busnes a'r economi, nid ydynt yn effeithio ar y mater ym mharagraff 170 sydd wedi'i gadw yn ôl, nac unrhyw faterion eraill a gadwyd yn ôl yn Atodlen 7A i GOWA. Nid yw'r darpariaethau hyn chwaith yn ymwneud â “*Regulation of the sale and supply of goods and services to consumers*” ym Mharagraff 72 o Atodlen 7A i GoWA 2006.

17. O ran cymal 12 (ardollau), nid yw'r pŵer i godi ardoll yn gyfystyr â chodi treth sy'n dod o fewn cwmpas "*Fiscal, economic and monetary policy including the issue and circulation of…taxes*" fel y'u cedwir yn ôl gan baragraff 15 o Atodlen 7A i GoWA 2006.

<u>Rhan 2 - Gwasanaethau Dilysu Digidol - Porth Gwybodaeth, cymalau 45, 47 a 49</u>

18. Mae'r cymalau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer Gwasanaethau Dilysu Digidol (DVS) gan gynnwys sefydlu fframwaith rheoleiddio ar gyfer darparu DVS er mwyn gallu gwneud mwy o ddefnydd o hunaniaethau digidol yn y DU:

- *Cymal 45, Pŵer awdurdod cyhoeddus i ddatgelu gwybodaeth i berson cofrestredig* - yn sefydlu porth gwybodaeth newydd, yn rhoi pŵer caniataol i awdurdodau cyhoeddus ddarparu gwybodaeth bersonol am unigolion (yn amodol ar ganiatâd) i ddarparwyr gwasanaethau adnabod sy'n darparu DVSau sydd â marc ymddiriedaeth.

- *Cymal 47, Gwybodaeth a ddatgelir gan Awdurdod Cyllid Cymru* - atal datgelu ymhellach y wybodaeth a ddarperir gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) o dan gymal 43, heb gydsyniad ACC. Bydd datgelu gwybodaeth heb ganiatâd yn drosedd.

- *Cymal 49, Cod ymarfer ynghylch datgelu gwybodaeth* - rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi Cod Ymarfer ynghylch datgelu gwybodaeth o dan gymal 45, y mae'n rhaid i Awdurdodau Cyhoeddus sy'n rhannu data ar gyfer DVS roi sylw iddo. O dan gymal 49(5) mae gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru wrth baratoi neu ddiwygio'r cod ymarfer.

19. Mae'r pŵer rhannu data o dan gymal 45 yn galluogi'r awdurdod cyhoeddus ddarparu gwybodaeth bersonol sy'n hwyluso mynediad i'r DVS. Y diben yw ei gwneud yn bosib darparu DVS ac nid yw'n ymwneud â rheoleiddio'r modd y darperir y gwasanaeth hwnnw. O dan gymal 49, bydd y cod ymarfer yn gymwys i awdurdodau cyhoeddus Cymru sydd wedi'u datganoli.

20. Nid yw'r darpariaethau hyn yn ymwneud â'r "*internet services*" ym mharagraff 84 o Atodlen 7A i GOWA 2006. Byddai hynny'n ddehongliad eithriadol o eang o fater a gedwir yn ôl. Mae llawer o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus, yn cael eu darparu ar y rhyngrwyd a byddai'n anodd i'r Senedd ddeddfu ar y rhan fwyaf o feysydd heb i hynny olygu defnyddio'r rhyngrwyd.

21. Mae cymal 47 yn ymwneud â llywodraethiant Awdurdod Cyllid Cymru ac felly â'r eithriad "*Devolved taxes, including their collection and management*" i'r mater a gadwyd yn ôl ar "*Fiscal, economic and monetary policy, including the issue and circulation of… taxes…*" ym mharagraff 15 o Atodlen 7A i GOWA 2006.

<u>Rhan 3 - Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol, cymalau 56, 57, 60(1) ac Atodlen 1</u>

22. Mae'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol (NUAR), a ddatblygwyd gan y Comisiwn Geo-ofodol, yn fap digidol o bibellau a cheblau tanddaearol. Mae'r darpariaethau hyn yn diwygio Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (NRSWA 1991), er mwyn gallu creu NUAR:

    - *Cymal 56, Cofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol: Cymru a Lloegr* - mae Rhan 3A newydd i'w mewnosod yn NRSWA 1991 ac mae'n darparu pwerau gwneud rheoliadau mewn perthynas â'r NUAR i'r Ysgrifennydd Gwladol, gan ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau.

    - *Cymal 57, Gwybodaeth mewn perthynas â chyfarpar: Cymru a Lloegr* – yn diwygio NRSWA 1991 i roi dyletswyddau newydd ar

ymgymerwyr i gadw cofnodion a rhannu gwybodaeth am gyfarpar ar strydoedd; a gwneud diwygiadau canlyniadol i'r newidiadau hynny.

  - o dan is-adrannau (2) a (3) mae'r diwygiadau sydd i'w gwneud i adran 79 o NRSWA 1991 yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau cydamserol i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru. Mae gofyn hefyd i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon.
  - o dan is-adran (4), mae'r diwygiadau i adran 80 o NRSWA 1991 yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig, gyda gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon. O ganlyniad, bydd y pwerau presennol sydd heb eu cychwyn yn cael eu cymryd oddi ar Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru a'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr.
  - o dan is-adran (9), dirymir Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1812), ac o dan is-adran (8). diwygir Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Cymru) 2002 fel ei fod yn gymwys i Gymru a Lloegr, yn hytrach nag i Loegr yn unig.

- *Cymal 60(1), Ymgynghoriad cyn cychwyn* - yn darparu bod gofyn i ymgynghori (o dan ddarpariaeth a fewnosodir yn Neddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 gan gymalau 56 neu 57) yn cael ei fodloni drwy ymgynghoriad a gynhelir cyn diwrnod pasio'r Bil hwn.

- *Atodlen 1, y Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol (Cymru a Lloegr): cosbau arianyddol* - yn mewnosod Atodlen (5A) newydd yn NRSWA 1991 sy'n gwneud darpariaethau ynghylch cosbau arianyddol am beidio â chydymffurfio â'r gofynion i dalu ffi ac i ddarparu gwybodaeth a nodir yn Rhan 3A o'r Ddeddf.

23. Mae gan Weinidogion Cymru gymhwysedd gweithredol mewn perthynas ag NRSWA 1991 (ac eithrio adran 167(3)) yn rhinwedd erthygl 2 ac Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999/672. Nid oes unrhyw faterion perthnasol wedi'u cadw yn ôl wedi'u nodi, fel y rheini a ddisgrifir yn Atodlen 7A i GoWA 2006.

24. Mae'r pwerau gwneud rheoliadau a roddir i Weinidogion Cymru (y gellir eu harfer yr un pryd â'r Ysgrifennydd Gwladol) fel y darperir ar eu cyfer yng nghymal 57(3) yn dod o dan y weithdrefn negyddol.

<u>Rhan 7 - Gwybodaeth i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn well, cymal 121.</u>

25. Mae cymal 121 yn estyn y pwerau rhannu data yn adran 35 o Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (DEA), sy'n caniatáu i awdurdodau cyhoeddus penodedig ('specified persons' yn y DEA) rannu data i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus i unigolion ac aelwydydd yn well. Bydd hwn yn estyn y pwerau hynny i gynnwys darparu gwasanaethau'n well i fusnesau.

26. Pwrpas y cymal hwn yw gwella'r ffordd y mae awdurdodau cyhoeddus penodedig yn darparu gwasanaethau cyhoeddus. Bydd yn creu porth cyfreithiol newydd er mwyn i awdurdodau cyhoeddus penodedig allu rhannu gwybodaeth at ddiben darparu gwasanaethau cyhoeddus yn well. Rhestrir 'specified persons' yn Atodlen 4 i'r DEA ac maent yn cynnwys yn Rhan 2 'Welsh Bodies' ac mae'r rheini'n cynnwys nifer o awdurdodau datganoledig Cymreig. Nid yw'n newid y fframwaith diogelu data ei hun. Nid yw'n effeithio ar unrhyw faterion a gedwir yn ôl.

27. Mae'r diwygiad a wnaed gan gymal 121 yn estyn pŵer Harri'r VIII sy'n bodoli eisoes y gall Gweinidogion Cymru ei arfer, drwy alluogi rhannu gwybodaeth er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus i 'ymgymeriadau' yn well. Mae hwn yn addasu pŵer sy'n bodoli eisoes, yn hytrach na rhoi pŵer. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 35 o'r DEA (y pŵer sy'n cael ei addasu), yn dod o dan y weithdrefn gadarnhaol.

**Barn Llywodraeth y DU am yr angen am gydsyniad**

28. Mewn llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg dyddiedig 23 Hydref 2024, dywedodd Llywodraeth y DU y byddent yn ceisio cymryd rhan yn y broses cydsynio deddfwriaethol i Gymru mewn perthynas â nifer o fesurau yn y Bil, fel y nodir isod.

29. Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod y darpariaethau cyffredinol o dan *Ran 1, Cael at Ddata am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau, cymalau 1-28* wedi'u cadw yn ôl o dan y cymalau diogelu defnyddwyr yn Atodlen 7A Adran C6 o GOWA 2006; ond eu bod mewn maes datganoledig o safbwynt cwsmeriaid busnes. At hynny, mae'r darpariaethau 'Data Clyfar' wedi'u cadw yn ôl lle maent yn gymwys i'r sector gwasanaethau ariannol, gan y cymalau gwasanaethau ariannol (Paragraff 17 o Atodlen 7A i GoWA 2006). Mae Llywodraeth y DU yn ystyried hefyd bod y pŵer codi ardoll o dan *gymal 12, Ardollau* yn fater sydd wedi'i gadw yn ôl o dan y cymalau ar bolisi economaidd ac arianyddol cyllidol - Paragraff 15 o Atodlen 7A i GoWA 2006.

30. Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod darpariaethau *Rhan 2 y Gwasanaethau Dilysu Digidol* yn faterion wedi'u cadw yn ôl o dan y gwasanaethau rhyngrwyd sydd wedi’u cadw’n ôl (Paragraff 84 o Atodlen 7A i GoWA 2006). Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU o'r farn bod y broses cydsyniad deddfwriaethol yn effeithio ar y canlynol:

- *Cymal 45, Pŵer awdurdod cyhoeddus i ddatgelu gwybodaeth i berson cofrestredig* – sy'n ymwneud â phwrpas datganoledig, ac sy'n dod o dan y broses cydsynio deddfwriaethol gan ei fod wedi'i gynnwys i ddiogelu natur gyfrinachol yr wybodaeth a gedwir gan Awdurdod Cyllid Cymru.

- *Cymal 47, Gwybodaeth a ddatgelir gan Awdurdod Cyllid Cymru* - sy'n gofyn am LCM o dan Ganllawiau Cymru ar Ddatganoli (DGNW) gan ei fod yn addasu swyddogaethau / rhoi swyddogaethau i Awdurdodau Datganoledig Cymru.

- *Cymal 49, Cod ymarfer ynghylch datgelu gwybodaeth* - sy'n gofyn am LCM o dan y DGNW gan ei fod yn addasu swyddogaethau / rhoi swyddogaethau i Awdurdodau Datganoledig Cymru.

31. Mae Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn *Rhan 3, y Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol, cymalau 56, 57, 60(1) ac Atodlen 1* gan eu bod yn newid cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

32. Mae Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer *Rhan 7, cymal 121, Datgelu gwybodaeth i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus i ymgymeriadau yn well*.

**Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil**

33. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi bwriad polisi Llywodraeth y DU y tu ôl i'r Bil, gyda'i nod o:
    - Wneud data yn fwy cludadwy rhwng cyflenwyr, darparwyr gwasanaethau, cwsmeriaid a thrydydd partïon perthnasol.
    - cynyddu ymddiriedaeth mewn hunaniaethau digidol ledled y DU, a'u gwneud yn fwy derbyniol, a galluogi marchnad hunaniaeth ddigidol ddibynadwy i ddatblygu yn y DU drwy sefydlu strwythur deddfwriaethol ar gyfer darparu gwasanaethau gwirio digidol yn y DU.
    - symleiddio'r broses rhannu data, lleihau'r risg o gyrchoedd marwol posibl ar offer cyfleustodau a hyrwyddo gwaith rheoli a chynnal mwy effeithlon ar offer tanddaearol trwy sefydlu NUAR ar seiliau statudol.
    - moderneiddio strwythurau llywodraethu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.
    - hwyluso gwasanaethau cyhoeddus mwy ymatebol a chydgysylltiedig ar draws yr economi ddigidol.
    - sicrhau bod cyfundrefn gwasanaethau ymddiriedaeth y DU yn gweithredu'n effeithiol a'i chael i weithio at y dyfodol.

34. Mae mwyafrif llethol darpariaethau'r Bil yn ymwneud â'r materion a gadwyd yn ôl o dan y cymalau ar ddiogelu data, y cymalau ar werthu a chyflenwi nwyddau a gwasanaethau i ddefnyddwyr, y cymalau ar delegyfathrebu a'r cymalau ar gofrestru genedigaethau, marwolaethau ac addoldai, fel y'u nodwyd yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Felly, credaf y gallai fod yn briodol i'r darpariaethau hyn gael eu gwneud drwy Fil y DU.

35. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi bwriad y polisi y tu ôl i'r darpariaethau hyn, fel y nodir isod:

- *Rhan 1, Cael at Ddata am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau, cymalau 1-13 a 18-26* – bwriad polisi'r darpariaethau hyn yw gwneud data yn fwy cludadwy, er mwyn i gwsmeriaid allu gwneud defnydd gwell o'u data personol; elwa ar farchnad fwy cystadleuol; helpu defnyddwyr i gynilo a rheoli eu harian a'u gwasanaethau a rhoi mynediad at wasanaethau newydd a mwy arloesol o fewn ac ar draws sectorau.

- *Rhan 2, Gwasanaethau Gwirio Digidol, cymalau 45, 47 a 49* - y bwriad y tu ôl i ddarpariaethau'r DVS yw cynyddu ymddiriedaeth mewn hunaniaethau digidol a'u gwneud yn fwy derbyniol, a'i gwneud yn haws, rhatach a mwy diogel profi hunaniaeth.

- *Rhan 3, Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol, cymalau 56, 57 a 60(1) ac Atodlen 1* - disgwylir i'r NUAR sicrhau twf economaidd sylweddol ledled y DU, trwy wella effeithlonrwydd, lleihau achosion o daro asedau (pan ddifrodir pibellau a cheblau tanddaearol yn ddamweiniol) a llai o darfu ar y cyhoedd a busnesau. Mae'r rhaglen NUAR hefyd yn cefnogi'r prosiect Grŵp Llywio Seilwaith Strategol yng Nghymru, sy'n ceisio gwneud gwaith a gynllunnir rhwng cwmnïau cyfleustodau ac awdurdodau lleol yn fwy effeithlon, yn ogystal â gwella cynlluniau cwmnïau cyfleustodau ar gyfer datblygiadau tai a diwydiannol yn y dyfodol.

- *Rhan 7, Gwybodaeth i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn well, cymal 121* - bydd estyn y pwerau rhannu data yn y DEA i gynnwys gwella canlyniadau i fusnesau, yn helpu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus cydgysylltiedig ledled Cymru sy'n diwallu anghenion defnyddwyr a dinasyddion ac i gyflawni'r ymrwymiadau economaidd yn y Rhaglen Lywodraethu. Yn ogystal, mae'r pwerau rhannu data yn Rhan 5 y DEA yn ganiataol, nid yn orfodol, felly nid oes gorfodaeth ar awdurdodau cyhoeddus i'w defnyddio oni bai eu bod am wneud hynny. O'r herwydd, nid yw hyn yn rhoi unrhyw faich ychwanegol ar awdurdodau cyhoeddus.

<u>Materion allweddol o bryder y mae angen eu datrys</u>

36. Yn achos y Bil DPDI blaenorol, roedd nifer o ddarpariaethau a oedd yn cyffwrdd â materion datganoledig ond nad oeddent yn gyson ag Egwyddorion Llywodraeth Cymru ar ddeddfwriaeth y DU. Mae rhai o’r pryderon hynny wedi cael eu datrys yn y Bil, sef:

    - dileu darpariaethau sy’n ymwneud â’r Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol (NUAR) wrth drosglwyddo pwerau gwneud rheoliadau o dan adran 79 o NRSWA 1991 oddi wrth Weinidogion Cymru i’r Ysgrifennydd Gwladol

37. Fodd bynnag, nid yw'r darpariaethau canlynol, fel y maent wedi'u drafftio, yn gyson ag Egwyddorion Llywodraeth Cymru ar ddeddfwriaeth y DU.

38. *Rhan 1, Cael at Ddata am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau, cymalau 1-13 a 18-26* - yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol a Thrysorlys EF mewn maes sydd wedi'i ddatganoli.

39. *Rhan 2, Gwasanaethau Gwirio Digidol, cymal 49* - yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol baratoi a chyhoeddi Cod Ymarfer, a fyddai'n effeithio ar awdurdodau cyhoeddus Cymru, mewn maes sydd wedi'i ddatganoli.

40. *Rhan 3 Cofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol.*

- Mae cymal 56 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau (o dan Ran 3A newydd i'w mewnosod yn NRSWA 1991).

- Mae cymal 57 (3) yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau cydamserol i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru, gyda gofyniad ar i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon (o dan y diwygiadau sydd i'w gwneud i adran 79 o NRSWA 1991).

- Mae cymal 57 (4) yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig, gyda gofyniad ar i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon (o dan y diwygiadau sydd i'w gwneud i adran 80 o NRSWA 1991).

- Mae cymal 57(9) yn dirymu Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1812), gyda chymal 57(8) yn diwygio Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Cymru) 2002 fel eu bod yn gymwys i Gymru a Lloegr, yn hytrach na Lloegr yn unig.

*Digonolrwydd Data'r UE*

41. Mynegwyd pryderon hefyd yn ystod hynt y Bil DPDI ynghylch ei effaith bosibl ar benderfyniadau digonolrwydd y DU, a wnaed ym mis Mehefin 2021 gan yr UE am gyfnod o 4 blynedd i ddechrau.

42. Testun y pryderon hyn oedd y darpariaethau y barnwyd eu bod yn gwanhau annibyniaeth y Comisiynydd Gwybodaeth ac yn tanseilio hawliau unigolion, yn ogystal â darpariaethau sy'n newid y diffiniad statudol o ddata personol, gan gyflwyno'r risg o gynnwys ystod ehangach o ddata iechyd a gofal cymdeithasol o fewn cwmpas cytundebau masnach rydd. Ystyriwyd bod y darpariaethau hyn yn heriol a bod potensial y byddai'r Comisiwn am gynnal adolygiad ohonynt a'u herio'n gyfreithiol yn Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd.

43. Mae'r posibilrwydd y gallai data golli'u digonolrwydd yn yr UE yn destun pryder sylweddol o safbwynt masnach gan y byddai hyn yn fygythiad mawr i fusnesau sy'n allforio o Gymru â'u prif farchnad dramor yw'r UE. Mae nifer arwyddocaol o fusnesau uchel eu gwerth yng Nghymru sy'n

dibynnu ar allu trosglwyddo data'n esmwyth gyda'r UE, yn enwedig cwmnïau rhyngwladol gyda rhiant-gwmni neu chwaer gwmni wedi'i leoli yng ngwledydd yr UE. Pe bai'r DU yn colli ei statws digonolrwydd data, byddai gweithredu'r mesurau diogelu sy'n ofynnol gan yr UE yn golygu gofynion gweinyddol ac adrodd ychwanegol i fusnesau o'r UE a tharfu ar fusnesau Cymru, gan y byddai angen iddynt hwythau gynnal gweithgareddau cydymffurfio ychwanegol, a allai fod yn gostus.

44. Yn ogystal, gallai colli digonolrwydd data effeithio hefyd ar wasanaethau cyhoeddus lle dibynnir ar lif data personol o'r UE, er enghraifft o fewn addysg a llywodraeth leol. Mae'r risgiau hyd yn oed yn fwy arwyddocaol ym maes iechyd - gallai colli digonolrwydd data effeithio ar GIG Cymru, gan effeithio ar agweddau ar ein cydweithredu â'r UE ar iechyd. Er enghraifft, cael at ddata ar gyfer trefniadau gofal iechyd cilyddol, diogelu diogelwch iechyd y cyhoedd, parhad ymchwil feddygol, arloesi a llifoedd gwybodaeth trawsffiniol.

45. Mae'r Bil newydd hwn yn cynnwys rhai, ond nid pob un, o'r darpariaethau sydd wedi peri pryder yn y gorffennol. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn cynnal asesiad manwl o'r potensial. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn trafod â Llywodraeth y DU ar y mater hwn.

**Goblygiadau ariannol**

46. *Rhan 1, Cael at Ddata am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau -* yn cynnwys pwerau i godi ffioedd ar ddeiliaid data ac eraill a chodi ardoll ar ddeiliaid data ac eraill. Mae Llywodraeth y DU yn nodi mai bwriad y rhain yw talu am y costau a ysgwyddir gan benderfynwyr a gorfodwyr wrth arfer eu swyddogaethau. Mae'n datgan mai amcan y darpariaethau yw sicrhau bod cynlluniau'n hunangyllido ac nad ydynt yn ddibynnol ar arian cyhoeddus.

47. *Rhan 2, Gwasanaethau Gwirio Digidol* - mae Llywodraeth y DU yn disgwyl i rai sefydliadau sector cyhoeddus orfod wynebu costau ymgyfarwyddo uniongyrchol o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth hon. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn disgwyl i rai busnesau o'r DU wynebu costau anuniongyrchol, gan gynnwys y rhai sy'n dewis cael eu hardystio yn unol â fframwaith ymddiriedaeth hunaniaethau a phriodweddau digidol y DU ac sydd wedi'u cofrestru yn y gofrestr Gwasanaethau Gwirio Digidol. Mae Llywodraeth y DU yn disgwyl hefyd i fusnesau'r DU wynebu costau blynyddol anuniongyrchol ar ffurf ffioedd a godir gan sefydliadau'r sector cyhoeddus am gysylltu â setiau data a gedwir gan y llywodraeth ac am wirio data. Bwriad y ffioedd hyn yw gwrthbwyso'r costau i'r sector cyhoeddus a sicrhau bod y trethdalwr yn cael gwerth ei arian.

48. *Rhan 3, Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol* - Bwriad Llywodraeth y DU yw ariannu costau rhedeg yr NUAR drwy ffioedd a delir gan y rhai sy'n elwa ar y gwasanaeth (ac nid y trethdalwr). Trwy reoliadau, gall yr Ysgrifennydd Gwladol greu cynllun ffioedd a gallai ofyn i ymgymerwyr sydd ag offer ar stryd dalu ffioedd i ariannu gwasanaeth

NUAR. Bwriedir targedu ffioedd i dalu am weithredu'r gwasanaeth ac nid i gynhyrchu refeniw ychwanegol.

**Casgliad**

49. Yn fy marn i, mae’n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU, gan mai'r Bil yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddod â'r darpariaethau hyn i rym.

50. Er bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi’r bwriad polisi sydd y tu ôl i'r Bil, mae pryderon o hyd o safbwynt cyfansoddiadol, fel yr amlinellir ym mharagraffau 38 - 40. Rydym yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar lefel Weinidogol a lefel swyddogion ynglŷn â rôl Gweinidogion Cymru a'r Senedd o fewn y Bil mewn perthynas â’r materion hyn.

51. Byddaf yn darparu diweddariadau pellach i’r Senedd ynghylch safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â’r Bil hwn ar ôl rhagor o drafod.

**Rebecca Evans AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**2 Ionawr 2025**